**Nodiadau Canllaw Ffurflen Adnabod Myfyriwr GOC**

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi dilyn y camau a nodir isod i sicrhau y bydd y llun neu brawf adnabod ardystiedig yn cael ei dderbyn.

**Pwy all ardystio fy mhrawf adnabod?**

Sicrhewch eich bod wedi ystyried y pwyntiau isod cyn dewis eich ardystiwr.

- ✓ Yn achos gweithwyr proffesiynol cofrestredig, mae'n ofynnol i ni weld eu rhif cofrestru ac i hwn fod yn chwiliadwy ar y gofrestr swyddogol ar gyfer y proffesiwn hwnnw fel y gallwn gadarnhau pwy ydynt.

- ✓ Ar gyfer proffesiynau eraill mae'n ofynnol i ni gadarnhau pwy ydynt trwy wefan swyddogol. Rhaid i fanylion eich ardystiwr fod yn weladwy ar y wefan swyddogol.

- ✓ **Ni all** yr ardystiwr fod wedi ymddeol.

- ✓ Mae'n rhaid bod yr ardystiwr wedi'ch adnabod ers mwy na 2 flynedd, ac eithrio aelod o staff addysgu yn y man astudio ar gyfer eich cwrs optometreg neu opteg cyflenwi.

- ✓ **Ni all** yr ardystiwr fod yn perthyn i chi, mewn perthynas â chi, nac yn byw yn yr un cyfeiriad â chi.

- ✓ Gall fod yn anodd cadarnhau'r manylion ar gyfer ardystiwr nad yw'n seiliedig yn y DU. Ar gyfer ymgeiswyr cofrestru sydd wedi'u lleoli'n ddiweddar y tu allan i'r DU, efallai y byddwch am ystyried gofyn i aelod o staff addysgu yn y man astudio ar gyfer eich cwrs optometreg neu opteg cyflenwi, gan y byddwn yn eu derbyn fel eich ardystiwr hyd yn oed os nad ydych wedi bod yn hysbys iddynt am fwy na 2 flynedd.

Mae'r rhestr isod yn manylu ar y proffesiynau a all weithredu fel ardystiwr ar gyfer eich prawf adnabod.

- Aelod o staff addysgu yn y man astudio ar gyfer eich cwrs optometreg neu opteg cyflenwi. **Mae'n dderbyniol i chi fod wedi'u hadnabod ers llai na 2 flynedd.**

**Ar gyfer yr holl ardystwyr eraill a restrir isod mae'n rhaid eu bod wedi adnabod yr ymgeisydd ers mwy na 2 flynedd.**

- Optometrydd cofrestredig neu optegydd cyflenwi cofrestredig.
- Ymarferydd meddygol neu ofal iechyd cofrestredig, (gan gynnwys meddygon, deintyddion, fferyllwyr).
- Gweithiwr proffesiynol cofrestredig fel cyfreithiwr neu fargyfreithiwr, peiriannydd, pensaer neu gyfrifydd (rhaid i gyfrifwyr fod wedi'u cofrestru gydag

ICAEW, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, neu ICAS, Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig yr Alban, neu Gyfrifwyr Siartredig Iwerddon).

- Ynad heddwch.
- Pennaeth sefydliad addysgol a roddodd gymhwyster i'r ymgeisydd neu berson a awdurdodwyd gan bennaeth y sefydliad hwnnw (yn ymarferol athro neu ddarlithydd mewn ysgol neu goleg lle cawsoch gymhwyster).
- Gweinidog yr Eglwys, Rabbi, Imam neu swyddog crefyddol arall sy'n dderbyniol i'r GOC.
- Cynghorydd.

**Camau i'w dilyn i ddarparu'ch dogfen adnabod ardystiedig yn llwyddiannus**

**Cam 1:** Ardystiwr i lenwi a llofnodi'r ffurflen ar dudalen 5.

**Cam 2:** Ardystiwr i ardystio'r prawf adnabod.

Bydd angen i'r ymgeisydd benderfynu ar y math o brawf adnabod i'w ddarparu, fel y disgrifir isod.

**<u>Opsiwn 1 – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig (tudalen 6)</u>**

Dylid gosod y llun ar y ffurflen. Yna mae'r ardystiwr yn cwblhau'r adrannau trwy ychwanegu enw'r ymgeisydd, ei enw, llofnod, a dyddiad.

**<u>Opsiwn 2 – Dogfen Adnabod Ardystiedig (tudalen 7)</u>**

Darparwch lungopi ardystiedig clir o un o'r dogfennau adnabod canlynol na ddylai fod wedi dod i ben:


- Pasbort,
- Cerdyn Adnabod Cenedlaethol yr UE
- Trwydded yrru'r DU
- Cerdyn adnabod myfyriwr

Rhaid i'r ardystiwr fod wedi gweld y prawf adnabod gwreiddiol, ac ar y llungopi rhaid ychwanegu'r canlynol.

1. Ysgrifennwch neu stampiwch "Tystiaf ei fod yn gopi cywir o'r gwreiddiol a welwyd gennyf i".
2. Llofnod a dyddiad.
3. Printiwch eich enw (os ydych yn gweithio mewn proffesiwn a reoleiddir, cynhwyswch eich rhif cofrestru isod).

**Cam 3: Uwchlwythwch yr ID ardystiedig i'ch ffurflen gais.**

Rhaid uwchlwytho'r ffurflen ardystiwr a'r dull adnabod ardystiedig yng ngham 4 o 5 ar y ffurflen gais - https://optical.org/en/registration/join-the-register/register-as-a-student/apply-to-join-the-student-register/




Wrth uwchlwytho ffeiliau lluosog, cliciwch “Choose File”, pwyswch shift ar y bysellfwrdd, cliciwch ar y ffeiliau rydych chi am eu huwchlwytho, a gwasgwch “Open”. **Sylwch mai terfyn maint y ffeiliau yw 10MB.**

**Ffurflen Adnabod Myfyriwr GOC**

**Rhaid i'r person sy'n ardystio'r prawf adnabod lenwi'r ffurflen hon. Ni all y llofnod fod yn electronig.**

Cyfarwyddiadau i'r bobl sy'n ardystio'ch llun neu ddogfen.

1. Gwiriwch nodiadau canllaw (tudalennau 1 i 3) y ddogfen hon.
2. Cwblhewch y ffurflen ardystiwr ar dudalen 5.
3. Ardystiwch naill ai'r llun neu'r ddogfen adnabod fel y disgrifir isod.

- Opsiwn 1 (gweler tudalen 6) – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig. Darperir hyn trwy lenwi a llofnodi'r ffurflen.

  Neu

- Opsiwn 2 (gweler tudalen 7) – Dogfen Adnabod Ardystiedig. Darperir hyn trwy gadarnhau eich bod wedi gweld y gwreiddiol a thrwy ychwanegu'r anodiad a llofnod gofynnol fel y disgrifir isod.

Gellir llenwi'r ffurflen isod trwy deipio yn y blychau neu gellir ei llenwi â llaw. **Ni all** llofnod yr ardystiwr fod yn electronig.

General Optical Council

**Ffurflen Ardystiwr**

| | |
|---|---|
| Enw llawn yr ymgeisydd i gofrestru | |
| Enw llawn yr ardystiwr | |
| Galwedigaeth | |
| Enw'r gofrestr broffesiynol, a rhif cofrestru (os yw'n berthnasol). | |
| Cyfeiriad gwefan swyddogol lle mae modd gweld eich safle. | |
| Cyfeiriad gwaith y person sy'n ardystio | |
| Cyfeiriad e-bost gwaith | |
| Rhif ffôn gwaith | |
| Gallaf gadarnhau fy mod wedi adnabod yr ymgeisydd ers dros 2 flynedd. Ddim yn berthnasol i aelod o staff addysgu yn man astudio'r ymgeisydd ar gyfer ei gwrs optometreg neu opteg cyflenwi. | Gallaf Na allaf<br><br>Ddim yn berthnasol gan fy mod yn aelod o staff addysgu yn y man astudio ar gyfer eich cwrs optometreg neu opteg cyflenwi. |
| Gallaf gadarnhau nad wyf yn perthyn i, neu mewn perthynas, nac yn byw yn yr un cyfeiriad â'r ymgeisydd. | Gallaf Na allaf |
| Llofnodwyd (ni all fod yn electronig) | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad (Rhaid ei ddyddio o fewn 3 mis i'r cais) | |

**Opsiwn 1 – Ffurflen Llun Maint Pasbort Ardystiedig**

| |
|---|
| Gosodwch lun yn y gofod hwn. |

| | |
|---|---|
| Enw llawn yr ymgeisydd i gofrestru | |
| Enw llawn yr ardystiwr | |
| Dyddiad yr ardystiwyd y llun | |
| **Drwy lofnodi'r ddogfen hon rydych yn cadarnhau mai llun o'r sawl sy'n gwneud y cais yw hwn** | |
| Llofnod yr ardystiwr (ni all fod yn electronig) | |
| Rhif cofrestru (dim ond yn berthnasol i ardystwyr sy'n gweithio mewn proffesiwn a reoleiddir) | |

**<u>Opsiwn 2 – Dogfen Adnabod Ardystiedig</u>**

Darparwch lungopi ardystiedig clir o un o'r dogfennau adnabod canlynol:

- Pasbort
- Cerdyn Adnabod Cenedlaethol yr UE
- Trwydded yrru y DU
- Cerdyn adnabod myfyriwr.

**Ni ddylai'r prawf adnabod a ddarperir fod wedi dod i ben.**

Rhaid i'r ardystiwr fod wedi gweld y prawf adnabod gwreiddiol, ac ar y llungopi rhaid ychwanegu'r canlynol:

1. Ysgrifennwch neu stampiwch “Tystiaf ei fod yn gopi cywir o'r gwreiddiol a welwyd gennyf i”.
2. Llofnod a dyddiad.
3. Printiwch eich enw (os ydych yn gweithio mewn proffesiwn a reoleiddir, cynhwyswch eich rhif cofrestru isod).

Gweler yr enghraifft isod.

